# Cronfa'r Degwm

# Welsh Church Fund

(o dan Ddeddfau'r Degwm 1914 – 1945 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1993 / under the Welsh Church Fund Acts 1914 – 1945 and the Local Government Act (Wales) 1993)

## Canllawiau

### 1. Beth yw'r Gronfa Degwm?

Mae Gronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu llog o'r gronfa ar ffurf grantiau yn flynyddol i **elusennau cofestredig** yng Ngwynedd.

Rhaid i bob grant fod mewn cytgord â Chynllun Elusennol Cronfa Degwm Cyngor Gwynedd. Mabwysiwyd canllawiau pellach er mwyn diffinio meysydd a mathau o ymgeisydd a fydd yn debygol o dderbyn ystyriaeth, er y gall Panel Ymgynghorol Grantiau Cist Gwynedd (sydd bellach yn penderfynu ar geisiadau) wneud eithriadau mewn achosion teilwng sydd y tu allan i'r canllawiau arferol ond sydd mewn cytgord â'r Cynllun Elusennol

Mae Cronfa'r Degwm yn gronfa o arian cyfalaf a refeniw. Disgwylir i'r dyraniadau gefnogi prosiectau sydd yn cryfhau ac yn datblygu cwmnïau a mentrau yn y sector wirfoddol. Y bwriad yw galluogi'r sector wirfoddol i chwarae rôl gyflawn yng nghymunedau Gwynedd drwy adlewyrchu un neu ragor o'r amcanion canlynol:

(i) Hybu gwybodaeth a gwerthfawrogiad o gelfyddydau a llenyddiaeth Cymru
(ii) Darparu neu gynorthwyo i ddarparu cyfleusterau ar gyfer adloniant neu weithgarwch amser hamdden arall;
(iii) Hybu diddordeb pensaernïol, hanesyddol neu wyddonol sy'n ymwneud a Chymru;

### 2. Pa lefel grant y gellir ei ddyfarnu?

Croesawir ceisiadau hyd at £3,000.00
Lle rhoddir grant, ni fydd y gronfa yn ystyried ceisiadau am gymorth gan yr un corff am gyfnod o 3 mlynedd o ddyddiad y cais blaenorol.

### 3. Pa fath o brosiectau a fyddai'n bosib i'r Gronfa gefnogi?

Disgwylir i geisiadau fod yn seiliedig ar **gynlluniau neu wasanaethau newydd** sydd yn cyflawni amcanion pendant ac amlwg.

### a) Enghreifftiau o brosiectau a fyddai yn bosib i'r Gronfa gefnogi:

**Gweithgareddau Celfyddydol a Llenyddol**

- Sefydlu / ail-gyflenwi llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau neu arddangosfeydd celfyddydol, gwyddonol neu ddiwydiannol
- Darparu darlithoedd, arddangosfeydd ac offer.
- Caffael, cadw a chyhoeddi archifau a dogfennau
- Prosiectau sydd yn ymwneud a llenyddiaeth, celfyddydau llwyfan, celfyddydau cain, llenyddiaeth a/neu gerddoriaeth.

**Gweithgareddau Hamdden, Cymdeithasol ac Adloniant**

- Darparu neu gynorthwyo i ddarparu meysydd chwarae, parciau, lleoedd agored, canolfannau neu neuaddau ar gyfer gweithgareddau hamdden
- Darparu offer (ar gyfer gweithgareddau newydd yn unig)
- Costau hyfforddiant i wirfoddolwyr (Hyfforddiant mandadol ddim yn gymwys)
- Costau yn gysylltiedig a gweithgareddau newydd ar gyfer pobl hyn/pensiynwyr

**Gweithgareddau Hanesyddol**

- Sicrhau a chadw tir neu wrthrychau sydd o ddiddordeb arbennig mewn perthynas â gwyddoniaeth pensaernïaeth neu hanes naturiol
- Prynu, trwsio, diogelu, dehongli a/neu arddangos creiriau
- Darparu cyfleusterau neu gyfleoedd addysgol ym myd hanes/treftadaeth
- Cefnogi astudiaeth ac ymchwil i bynciau sy'n gysylltiedig â hanes, topograffeg, llenyddiaeth a bywyd Cymru
- Gwaith cynnal a chadw ar adeiladau sydd wedi rhestru neu sydd heb eu rhestru ond gyda chysylltiadau hanesyddol neilltuol
- Deunydd dehongli ar gyfer adeiladau o ddiddordeb hanesyddol a/neu bensaernïol

## b) Gweithgareddau na fydd y Gronfa yn ariannu:

- Ni roddir grantiau tuag at weithgareddau crefyddol neu sectyddol, nac at adnoddau a ddefnyddid yn bennaf ar gyfer y gweithgareddau hynny.
- Ni fydd grant yn cael ei roi ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol a rheolaidd adeiladau nac i gynnal gweithgareddau/gwasanaethau arferol neu barhaol.
- Ni ystyrir ceisiadau oddi wrth Bapurau Bro.
- Ni chaniateir ceisiadau personol na cheisiadau er budd unigolion yn uniongyrchol.
- Ni chaniateir grant er mwyn cynnal swydd.
- Ymweliadau tramor
- Gweithgareddau addysgol statudol

## 4. Pwy all ymgeisio am gefnogaeth?

Ystyrir ceisiadau am grant oddi wrth **elusennau cofrestredig yn unig.**
Mae'n rhaid cyrraedd y meini prawf canlynol os am geisio am arian drwy'r gronfa:

- Rhaid bod yn elusen gofrestredig sydd wedi ei leoli neu yn gweithredu o fewn Gwynedd;
- Ni all eich mudiad ddosbarthu elw;
- Rhaid i'ch mudiad fod a statws cyfreithiol a chyfansoddiadol;
- Rhaid i'ch mudiad fod a strwythur rheoli clir;
- Rhaid i'ch mudiad gael sustem rheolaeth ariannol glir
- Bod ag egwyddorion gweithredol sydd yn cyd-fynd a deddfwriaeth ar gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb i weithwyr a gwirfoddolwyr;
- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb yn gysylltiedig â mynediad, iaith, diwylliant, rhyw a materion ethnig;
- Yn meddu ar amcanion a nodau sydd yn cyd-fynd a gweithgareddau ariannir drwy'r grant yma;
- Dangos bod grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd/cynllun;
- Rhaid dangos bod egwyddorion gwerth am arian wedi eu dilyn wrth ddatblygu, gweithredu a rhedeg y cynllun, megis eich bod yn dilyn y Cyfarwyddiadau Gwahodd Prisiau (gellir cael copïau gan Swyddfa Cist Gwynedd) ar gyfer y gwaith/gwasanaeth, yn enwedig yn y cynlluniau cyfalaf;
- Bod egwyddorion gweithredol yn eu lle sydd yn cyd-fynd a deddfwriaeth amddiffyn plant ac oedolion bregus.

Os mai hyrwyddo crefydd yw prif nod eich grŵp, cysylltwch ag Swyddog Cist Gwynedd

Bydd yn ofynnol ar bob cynllun a gymeradwyir i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r gronfa. Mewn rhai amgylchiadau gellir gosod amodau arbennig ar gynllun.

## 5. Sut i ymgeisio am grant?

Gellir gwneud cais ar gyfer Gronfa'r degwm drwy lenwi'r ffurflen gais pwrpasol. Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau yn ofalus ac yn sicrhau bod eich cynllun yn ymateb i'r canllawiau a'r meini prawf.

Mae swyddogion Cyngor Gwynedd ar gael i gynnig arweiniad i chi. **Awgrymir yn gryf y dylid cysylltu gyda Swyddog i drafod y cynllun cyn ymgeisio.** Mae manylion y Swyddogion Cefnogi Cymunedau a'r ardaloedd hyn isod:

**Dalgylch Bro Lleu/Nantlle a Bro Peris**
markgahan@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 07901 893006

**Dalgylch Caernarfon, Bangor a Bro Ogwen**
dafyddeinionjones@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 01248 605276

**Dalgylch Penllŷn a Pwllheli**
alyslloydjones@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 01758 704120

**Bro Ardudwy, Dolgellau a Dysynni,**
elinwiliam@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 01341 424 495

**Dalgylch Bro Ffestiniog, Penrhyndeudraeth a Porthmadog**
elinvaughanpritchard@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 07919 024025

**Dalgylch Bala Penllyn, Dinas Mawddwy a Rhydymain**
huwAnturEdwards@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 07929512741.

**Neu am unrhyw wybodaeth arall cysylltwch a Swyddog Cist Gwynedd**
cistgwynedd@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 01286 679870

## 6. Pryd y dylid gwneud cais?

Dylid sicrhau bod y ffurflen gais wedi ei chwblhau a bod **yr holl** ddogfennau cefnogol a thechnegol angenrheidiol wedi eu derbyn erbyn y dyddiad cau perthnasol.

Byddwn yn anelu i asesu a chymeradwyo ceisiadau o fewn 6 wythnos i'r dyddiad cau.
**Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau am lai na £1,000 ar unrhyw adeg, a byddwn yn anelu i brosesu ceisiadau o'r fath o fewn 4 wythnos gwaith os bydd cyllid ar gael.**